

Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Meddygaeth Niwclear,
Canolfan Ganser Felindre,
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol
Felindre

Dyddiad yr arolygiad: 14 a 15 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill yn ôl y cais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein nod

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Meddygaeth Niwclear, Canolfan Ganser Felindre, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar 14 a 15 Mehefin 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd AGIC ac uwch-swyddog clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Fel rhan o'r arolygiad hwn, roedd uwch-swyddog clinigol ychwanegol hefyd yn bresennol i arsylwi, fel rhan o'r rhaglen adolygu gan gymheiriaid o fewn y Grŵp Cysylltiadau Meddygol. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion sy'n mynychu'r adran. Mae modd i'r lleoliad wella'r trefniadau hyn ymhellach drwy ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg i gleifion'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Darparu mwy o wybodaeth am y 'Cynnig Rhagweithiol'
- Y broses sydd ar waith i hysbysu cleifion am ganlyniadau o'r adborth a gasglwyd ynghylch profiad y cleifion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd sydd mewn cyflwr da a chanddo arwyddion da
- Sylwadau cadarnhaol iawn yn ymwneud â phrofiad y cleifion
- Roedd nifer o adnoddau cyfathrebu ar gael i helpu'r bobl ag anawsterau cyfathrebu.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn gyffredinol, roedd cydymffurfedd da â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (RhYI(CM) 2017). Canfuom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion sy'n ymweld â'r Adran Meddygaeth Niwclear.

Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol ar waith gan y gwasanaeth i sicrhau bod modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol yn yr adran.

Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella, gan gynnwys yr angen i wella cadernid atgyfeiriadau electronig, cymorth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn y tymor byr a chanolog ac asesiad risg yr ardal gyffredinol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Gweithredu ar lefelau cymorth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol sy'n gyson â chanllawiau cenedlaethol
- Ffurfioli'r rhaglen archwilio clinigol
- Cynnal astudiaeth o'r risg sy'n gysylltiedig â'r therapiau i ystyried cysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ag ymbelydredd.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl staff yn deall eu rolau o dan y Rhŷi(CM)
- Sefydlwyd lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar, neu islaw'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol
- Roedd y System Isostock yn cynnwys cofnodion clir a gwiriadau dwbl o gofnodion dosau er mwyn lleihau risg a sicrhau y gellir archwilio yn hawdd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli â llwybrau adrodd eglur ar waith. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi cydymffurfedd rheoleiddiol parhaus. Gwelsom arweinyddiaeth weledol a chefnogol yn cael ei darparu o fewn yr adran.

Gwnaeth y staff ddangos bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u rolau yn yr adran.

Nodwyd rhai materion y mae angen i'r cyflogwr roi sylw iddynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae angen cryfhau atebolrwydd trwy gyflwyno system rheoli dogfennau ar weithdrefnau'r cyflogwr a dogfennau a phrotocolau eraill

- Cynnwys y cofnodion cymhwysedd yn y system ansawdd dogfennau er mwyn sicrhau cysondeb yn eu fformat.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae holiadur hunanasesu AGIC yn cael ei gwblhau mewn modd amserol
- Cydymffurfedd da â hyfforddiant ac arfarniadau gorfodol staff
- Tystiolaeth o reolaeth dda.

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein ac ar bapur i gael barn cleifion am yr Adran Meddygaeth Niwclear (yr adran) yng Nghanolfan Ganser Felindre. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 27 o ymatebion. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn yr ysbyty hwn yn wych, yn ofalgar ac yn gyfeillgar, ac yn tawelu meddwl cleifion sy'n nerfus.”

“Roedd yr holl staff wedi gwneud i'm triniaeth a'm gofal deimlo'n anhygoel. Doedd dim byd yn ormod iddyn nhw. Diolch.”

“Mae'r holl staff dwi wedi dod ar eu traws yn ystod ymweliadau ... wedi bod yn gwrtais, yn gefnogol ac yn galonogol. Allwn i ddim gofyn am driniaeth well - rwy'n ddiolchgar iawn.”

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn dangos profiad claf cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n canmol y staff a'r gwasanaeth cyffredinol. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth; roedd pob un o'r farn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Adborth Staff

Cyhoeddodd AGIC arolwg ar-lein i gael barn y staff am yr adran yng Nghanolfan Ganser Felindre. Dim ond tri ymateb gawsom, felly mae ein sylwadau ynghylch ymatebion y staff yn gyffredinol iawn. Dylid ystyried y sylwadau a roddwyd felly yng ngoleuni nifer y staff a ymatebodd.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom mai prin oedd y deunydd hybu iechyd a oedd yn cael ei arddangos yn yr adran. Fodd bynnag, roedd ystod o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael ac yn cael eu darparu i gleifion cyn eu hapwyntiadau. Roedd taflenni Macmillan hefyd ar gael mewn man penodol yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth berthnasol wedi'i harddangos ar bosteri yn yr adran.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod system dolen sain ar gael. Gwnaethant ddweud wrthym fod modd gwneud trefniadau ychwanegol, lle bo angen, os oedd gan gleifion unrhyw ofynion cyfathrebu eraill. Cadarnhaodd y staff fod mynediad at wasanaethau cyfieithu ar gael i helpu pe bai claf yn mynychu'r uned ac yn methu cyfathrebu yn Saesneg, a'u bod yn gallu trefnu cyfieithydd ar gyfer apwyntiadau cleifion.

Gwelsom ddarpariaeth dda o bosteri gwybodaeth dwyieithog. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos i hysbysu cleifion y gallent siarad â staff yn Gymraeg, hynny yw'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Dywedwyd wrthym, er nad oedd staff yn yr adran sy'n medru'r Gymraeg, bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr ysbyty.

Dim ond un o'r 25 o gleifion a atebodd ddywedodd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Dywedodd iddo gael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg drwy gydol ei daith fel claf a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddo yn Gymraeg.

Roedd yr holl gleifion a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Roeddent i gyd yn cytuno eu bod yn gallu siarad â staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill eu clywed a gwrandawodd y staff arnynt ac ateb eu cwestiynau. Gwelsom hefyd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion a oedd yn barchus ac yn broffesiynol, ac roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion.

Cytunodd pob claf, ac eithrio un, eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunant fod mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai'r rheolwr gwybodaeth cleifion yn darparu cymhorthion ar gyfer cleifion â namau ar eu clyw, megis llinell iaith, seinchwyddwyr a dolen glyw. Roedd y cyfarpar ar gael ar stondin a fyddai'n cael ei symud i'r adran. Roedd yr holl ddogfennau a roddwyd i'r cleifion yn ddwyieithog a cheisiodd y staff ateb y ffôn yn Gymraeg.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd poster i wedi'u harddangos yn glir yn gofyn i unigolion hysbysu aelod o staff os ydynt yn feichiog, neu os oedd posibilrwydd o hynny, neu'n bwydo ar y fron. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos ym mhrif ystafell aros yr adran ac yn ystafell aros yr adran meddygaeth niwclear, yn manylu ar fanteision a risgiau'r gwahanol fathau o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil triniaethau ag ymbelydredd ìoneiddio a oedd yn cael eu cynnal. Hefyd, rhoddwyd cyngor i gleifion i osgoi cyswllt agos â phlant ac unigolion a oedd yn feichiog. Gwelsom bosteri â gwybodaeth benodol am feddygaeth niwclear yn cael eu harddangos yn yr ystafell aros. Roedd tystiolaeth

hefyd o arwyddion dwyieithog digonol i alluogi'r claf i ddod o hyd i'r adran ac roedd nifer o bosteri dwyieithog yn cael eu harddangos.

Cytunodd yr holl gleifion a atebodd y cwestiwn eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision y triniaethau. Roedd yr holl gleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu triniaeth. Roedd yr holl gleifion, ac eithrio un, yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch pwy i gysylltu â nhw i gael cyngor ar unrhyw 'ôl-ffeithiau' o'u triniaeth.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Gwnaethom nodi fod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon wrth fynychu'r adran. Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi.

Cytunodd yr holl gleifion a atebodd ei bod yn hawdd cael apwyntiad a'u bod yn gallu dod o hyd i'r adran yn hawdd. Er i 22 o'r 27 o ymatebwyr gytuno bod rhywun yn yr adran wedi dweud wrthynt am ba hyd y byddent yn debygol o orfod aros, dim ond tri oedd wedi aros 15 i 30 munud ac un oedd wedi aros am fwy na 30 munud. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd y byddent yn hysbysu'r cleifion pe bai unrhyw oedi.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Dywedwyd wrthym fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad yn ogystal â hyfforddiant gorfodol yn y maes hwn. Yn ogystal â bodloni gofynion cyfathrebu cleifion, roedd drysau llydan i'r adran a mynediad gwastad yn ogystal â theclyn codi gwely ar gael i'r cleifion.

Dywedodd pob un a ymatebodd eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom dystiolaeth o'r broses sydd ar waith i gleifion roi adborth neu godi pryderon. Cawsom hefyd gopïau o'r adborth a gafwyd drwy'r darparwr allanol. Dywedwyd wrthym fod adroddiad misol ar adborth ar gyfer yr ysbyty cyfan a bod yr adrannau perthnasol yn cael eu dethol ar gyfer yr adran. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth am ddysgu o adborth yn cael ei harddangos i'r cleifion ei gweld. Hefyd, dylai rhagor o wybodaeth gael ei harddangos i gleifion mewn perthynas â sut i wneud cwyn.

Byddai canmoliaeth a phryderon yn cael eu cofnodi ar y system Datix. Caiff pryderon eu trosglwyddo i'r rheolwr llinell a chaiff pob ymdrech ei gwneud i ymdrin â'r mater yn fewnol yn y lle cyntaf.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Cyn ein harolygiad, gofynnodd AGIC i uwch aelodau o staff yn yr adran gwblhau holiadur hunanasesu a'i chyflwyno. Roedd hyn er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â RhŶI(CM) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Cafodd y ffurflen hunanasesu ei dychwelyd i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac roedd yn gynhwysfawr. Pan oedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurhad arnom mewn perthynas â'r ymatebion yn yr hunanasesiad, cafodd ei rhoi gan uwch aelodau o staff yn gyflym.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn cyflogwr i adnabod unigolion yn gywir. Roedd hyn yn cynnwys sut i adnabod unigolion yn gywir nad ydynt efallai yn gallu adnabod eu hunain. Roedd yr holl gleifion yn cytuno y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd Atodiad 1 - Gweithdrefn Adnabod Cleifion (o'r ddogfen RhŶI(CM) Meddygaeth Niwclear) mor glir ag y dylai fod gan nad oedd yn nodi'r cwestiynau i'w gofyn i'r claf.

Unigolion a allai fod yn feichiog (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)

Roedd y staff yn gallu disgrifio'r weithdrefn ar gyfer holi unigolion a allai fod yn feichiog i sicrhau nad oeddent yn feichiog nac yn bwydo ar y fron. Roedd hyn yn cynnwys y weithdrefn lle mae'n bosibl na fyddai unigolion yn gallu ymateb i'r ymholiad hwn. Roedd yr atodiad perthnasol hefyd yn ymdrin â chwestiynau ynghylch beichiogrwydd a bwydo ar y fron.

Yn ôl y ffurflenni hunanasesu, roedd dau aelod o staff bob amser yn bresennol ar adeg rhoi'r cynnyrch radiofferylliaeth. Lle'r oedd mwy nag un gweithredwr yn gysylltiedig â'r achos o gysylltiad ag ymbelydredd, roedd y gwiriadau adnabod y claf, manylion y radiofferylliaeth, statws beichiogrwydd a bwydo ar y fron yn cael eu gwirio gan y ddau weithredwr.

Darparodd y ffurflenni hunanasesu dystiolaeth y cynhelir archwiliadau misol rheolaidd o atgyfeiriadau i sicrhau bod gwiriadau beichiogrwydd a bwydo ar y fron a chyfiawnhad/awdurdod yn cael eu cynnal.

Achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol

Roedd y dogfennau a ddarparwyd yn nodi nad oedd gweithdrefn gan y cyflogwr ar gyfer y rhain gan nad oedd gweithdrefn delweddu anfeddygol yn cael ei chynnal yn y ganolfan. Fodd bynnag, mae angen gweithdrefn o hyd, yn nodi mai dyma'r achos.

Canllawiau atgyfeirio

Disgrifiwyd y broses o sut mae'r cyflogwr yn sicrhau bod canllawiau atgyfeirio yn cael eu mabwysiadu a'u bod ar gael i bob atgyfeiriwr. Hefyd, eglurwyd yr hyfforddiant sefydlu ar gyfer atgyfeirwyr newydd a nodwyd bod canllawiau atgyfeirio ar y ffurflenni cais a ddefnyddir yn yr adran wedi'u cynnwys yn y pecyn hyfforddi.

Ar hyn o bryd, roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar hyd at bum ffurflen o wahanol liwiau yn dibynnu ar y math o atgyfeiriad. Cafodd y rhesymau dros y system hon eu hegluro hefyd. Byddai unrhyw atgyfeiriad a gafodd ei gwblhau ar y ffurflen anghywir yn cael ei ddychwelyd. Dywedwyd wrthym hefyd fod y gofyniad am atgyfeiriadau electronig yn cael ei ddatblygu.

Roedd y staff yn gallu disgrifio'r meini prawf atgyfeirio a ddefnyddiwyd. Roedd rhestr o atgyfeirwyr â hawl wedi'u rhestru yn y dogfennau RhYŷ(CM) ac roedd copi ar bapur wedi'i arddangos yn y swyddfa.

Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Eglurodd y ffurflenni hunanasesu sut roedd ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr yn cael yr hawl i gyflawni eu dyletswyddau a oedd wedi'u cynnwys yng ngweithdrefn y cyflogwr. Dywedwyd wrthym fod atgyfeirwyr yn cwblhau'r cyfnod sefydlu, bod ymarferwyr yn cael yr hawl gan y cyfarwyddwr meddygol ac mai'r Pennaeth Meddygaeth Niwclear oedd yn rhoi'r hawl i'r gweithredwyr. Derbyniodd pob un ohonynt lythyr yn rhoi'r hawl iddynt.

Roedd gweithdrefn y cyflogwr a ddefnyddir yn yr adran hon yn cynnwys mwy nag un matrices hawl ac roedd tic wrth ochr cofnodion y personél a enwyd i ddangos y tasgau yr oedd gan y staff yr hawl i'w gwneud. Gan nad oedd dyddiad ar y rhain, nid oedd yn glir pryd y digwyddodd yr hawl hon na phryd y byddai hyn yn cael ei adolygu.

Roedd yr enghraifft o lythyr hawl wedi'i gwblhau a ddarparwyd gyda'r ffurflen hunanasesu yn dangos bod cwmpas yr ymarfer yn glir ar gyfer rôl yr ymarferydd, ond nid oedd yn glir sut roedd hyn yn adlewyrchu tasgau'r gweithredwr neu'r atgyfeiriwr. Roedd dirprwyo awdurdod i roi'r hawl i weithredwyr wedi'i gynnwys yn yr enghraifft hon hefyd ac roedd yn caniatáu i'r unigolyn hwn roi'r hawl i weithredwyr roi radiofferylliaeth.

O ran cymorth ymarferwyr, roedd llawer o unigolion yn darparu cymorth cyfwerth ag amser cyflawn isel yn ogystal â chymorth ymarferwyr o bell ar gyfer therapïau.

Mae angen i'r adran ystyried gofynion y gwasanaethau hyn yn y dyfodol er mwyn gwella gwytnwch y gwasanaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am gymorth ymarferwyr o bell. Yr arfer gorau yw lleoli'r ymarferydd ar y safle, yn enwedig ar gyfer therapïau.

Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol

Roedd set o weithdrefnau cyflogwr atodol ar gyfer yr adran, a oedd yn cynnwys cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Nododd y ffurflen hunanasesu fod cyfiawnhad wedi'i gofnodi yn y man priodol ar y ffurflen a'i fod yn cynnwys dyddiad a llofnod yr ymarferydd. Disgrifiwyd y broses lle roedd gweithredwyr yn awdurdodi'r achosion hyn o gysylltiad ag ymbelydredd yn unol â chanllawiau. Derbyniwyd llofnod electronig gan ymarferydd o bell, ar yr amod bod y ffurflen atgyfeirio yn cael ei hanfon o gyfrif e-bost yr ymarferydd hwnnw.

Buom yn trafod y cyfiawnhad ar gyfer achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd sy'n ymwneud â gofalwyr a chysurwyr ag uwch aelodau o staff, gan gynnwys ystyried statws beichiogrwydd a'r lefelau o ofal cleifion sy'n ofynnol fel rhan o'r penderfyniad cyfiawnhau. Roedd gweithdrefn benodol ar gyfer cyflogwr meddygaeth niwclear mewn perthynas â chyfyngiadau dosau a chanllawiau ar ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil meddygaeth niwclear ar gyfer gofalwyr a chysurwyr. Ar hyn o bryd, dim ond y deiliaid trwydded ymarferydd oedd â hawl i weithredu fel ymarferwyr ar gyfer y broses hon. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg unigol yn cael eu cynnal os oedd disgwyl i'r dos fynd y tu hwnt i'r terfyn a gofnodwyd a disgrifiwyd y tri achos lle'r oedd hyn yn cael ei wneud.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y broses i'w hystyried wrth gyfiawnhau achosion o gysylltiad ag ymbelydredd. Roeddent hefyd yn gwybod lle y cofnodir awdurdodi cysylltiadau ag ymbelydredd. Roeddent hefyd yn gallu disgrifio'r canllawiau mewn perthynas â gofalwyr a chysurwyr.

Optimeiddio

Roedd y ffurflenni hunanasesu'n cynnwys enghreifftiau da o ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Sut roedd cysylltiad ag ymbelydredd yr unigolion lle ceir amheuaeth o feichiogrwydd neu a oedd yn bwydo ar y fron wedi cael eu hoptimeiddio
- Sut roedd y gweithredwr yn dewis protocolau ar gyfer archwiliadau unigol i sicrhau bod y cyswllt ag ymbelydredd wedi'i optimeiddio
- Sut yr oedd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn rhan o'r broses optimeiddio ar gyfer pob arfer meddygaeth niwclear a rhoddwyd ystod dda o enghreifftiau
- Y weithdrefn ar gyfer darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig a gwybodaeth i bob claf neu gynrychiolydd claf.

Dywedodd yr uwch aelodau o staff wrthym hefyd fod gwybodaeth ysgrifenedig, fel y disgrifir uchod, yn cael ei rhoi i'r cleifion gyda'u llythyrau apwyntiad yn disgrifio'r weithdrefn, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu'n ddwyieithog. Roedd hon hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r claf am fanteision a risgiau'r driniaeth ac yn disgrifio unrhyw gyfyngiadau ar ôl y prawf. Byddai'r staff yn cynghori cleifion i osgoi cyswllt hir ac agos â phlant a phobl feichiog am weddill y dydd ac i yfed digon o hylifau i gynorthwyo'r corff i gael gwared ar y radiofferylliaeth.

Gwnaeth y staff hefyd ddisgrifio'r broses i sicrhau bod y gweithgareddau a roddwyd a'r achosion o gysylltiad ag ymbelydredd pelydr-X a roddwyd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol, a rhoddwyd sylw arbennig i grwpiau cleifion penodol.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Dywedwyd wrthym fod cyfraddau'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gael a'u bod yn is na chyfraddau lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol. Roedd y rhain wedi'u hoptimeiddio mewn cydweithrediad â chanolfannau eraill yn Ne-ddwyrain Cymru. Ni ofynnodd y clinigwyr am unrhyw newid i'r lefelau cyfeirio diagnostig hyn gan na fu pryderon ynghylch ansawdd y delweddau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o set y lefelau cyfeirio diagnostig ac roedd eu dealltwriaeth o'r rhain a sut i'w cymhwyso'n glir ac yn gyson â'r gweithdrefnau. Roedd y tabl o lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer radiofferylliaeth yn cael ei arddangos ger yr offer. Byddai meddalwedd Isostock hefyd yn rhybuddio'r staff yn ystod y mesuriad, os nad oedd y driniaeth wedi'i rhoi o fewn 10% i'r hyn y gofynnwyd amdano. Roedd y staff yn gallu disgrifio'r system feddalwedd gyfrifiadurol Isostock a ddefnyddir at ddibenion caffael, defnyddio a gwaredu cyfansoddion wedi'u labelu'n ymbelydrol a bod y mesuriadau'n cael eu gwirio ddwywaith.

Pediatreg

Cawsom ymateb cynhwysfawr yn y ffurflenni hunanasesu a ddarparwyd ar brotocolau optimeiddio pediatrig. Byddai pwysau'r claf yn cael ei roi i Radiofferyllfa Caerdydd a'r Fro ac roeddent yn addasu'r gweithgaredd i'w roi yn seiliedig ar y pwysau hwnnw. Er nad oedd cleifion pediatrig yn cael eu delweddu fel mater o drefn yn Felindre, pe bai angen sgan esgyrn pediatrig byddent yn defnyddio gwelyau sy'n symud yn arafach sy'n arwain at amser sganio hirach.

Gwerthusiad clinigol

Roedd atodiad ynghylch gwerthuso clinigol i'r ddogfen RhŶI(CM) Meddygaeth Niwclear a gweithdrefn y cyflogwr. Roedd y ffurflenni hunanasesu yn nodi sut yr ymgwymerwyd â gwerthusiad clinigol ac roedd tystiolaeth ar gyfer pob math o gysylltiad ag ymbelydredd. Gwnaethom wirio dau gofnod i ddangos bod aelod o staff â'r hawl briodol wedi cynnal gwerthusiad clinigol.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr stocrestr o'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Roedd y stocrestr yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan Rhŷi(CM) 2017. Gwnaethom adolygu'r weithdrefn a oedd ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas â'r rhaglen sicrhau ansawdd. Gwelsom hefyd y rhaglen sicrhau ansawdd a oedd ar waith, yn ogystal â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr, ac roedd y rhain yn gyfredol.

Roedd y ffurflenni hunanasesu'n rhoi rhestr fanwl o'r rhaglen sicrhau ansawdd sydd ar waith ar gyfer yr holl offer perthnasol. Darparwyd atodiad a gweithdrefn cyflogwr ar gyfer y rhaglen sicrhau ansawdd hefyd.

Cafwyd ymateb cynhwysfawr hefyd ar sut yr oedd y rhaglen sicrhau ansawdd yn sicrhau gwiriad cywir o'r driniaeth a roddir. Yn yr un modd, roedd yr ymateb yn gynhwysfawr ar y mesurau sydd ar waith i wella offer annigonol neu ddiffygiol ac unrhyw gamau cywiro y gellid eu cymryd.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yn hawdd dod o hyd i'r adran o'r brif fynedfa. Ni nodwyd unrhyw beryglon amlwg yn y mannau cyhoeddus ac roedd y coridorau'n glir o rwystrau. Fodd bynnag, gallai cynllun a lleoliad yr adran gyflwyno heriau pe bai gollyngiadau'n digwydd. Roedd yr adran wedi'i lleoli ar hyd prif dramwyfa ac wedi'i threfnu bob ochr i'r coridor hwn. Roedd mynediad gwastad ac roedd cyfleusterau ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd. Dywedwyd wrthym fod y cyfyngiadau amgylcheddol a nodwyd yn cael eu cydnabod yn dda gan yr Ymddiriedolaeth a'u bod yn cael sylw wrth adeiladu'r ysbyty newydd.

Roedd yr holl staff yn gadarnhaol yn eu hymatebion i'r gofal yr oeddent yn ei roi i'r cleifion. Cytunodd yr holl staff mai gofal y cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth oedd prif flaenoriaeth y sefydliad, eu bod yn gweithredu ar unrhyw bryderon a godwyd a byddai'r staff yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio.

Disgrifiodd y staff y broses i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i unigolion neu gynrychiolwyr yn ymwneud â'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dosau o ganlyniad i gysylltiad ag ymbelydredd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob man a welwyd yn ymddangos yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwnaethom drafod y trefniadau â'r staff ynghylch gollyngiadau neu halogiad. Cadarnhaodd y staff pe bai'r coridor y tu allan i'r adran wedi'i halogi, y byddai'n cael ei fonitro i atal achosion o gysylltiad ag ymbelydredd i'r staff a'r cleifion. Roedd y defnydd o'r toiled pwrpasol yn yr adran wedi'i gyfyngu i gleifion Meddygaeth Niwclear er mwyn rheoli halogiad.

Roedd biniau ar gyfer offer miniog wedi'u leinio â bagiau oren ac yn cael eu defnyddio ar gyfer swabiau a oedd yn trin man y pigiad. Er nad oedd caeadau ar y biniau, cadarnhaodd y staff fod swabiau'n sych ac nad oedd angen iddynt fod mewn bin â chaead. Gwnaethom siarad â'r nyrs rheoli heintiau a gadarnhaodd fod y trefniadau hyn yn cyd-fynd â pholisi'r Ymddiriedolaeth.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau ymolchi a sychu dwylo o amgylch yr adran. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ei ddefnyddio a gwelwyd bod yr holl staff yn gwisgo masgiau. Gwelwyd bod y cadeiriau wedi'u trefnu er mwyn cadw pellter cymdeithasol yn y man aros ac roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion a staff ynghylch rhagofalon COVID-19.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr holl offer yn cael ei lanhau ar ôl pob claf a bod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol fel masgiau, ffedogau, menig a feisorau. Dywedwyd wrthym hefyd am y daflen adrodd wythnosol a gyflwynir i'r adran rheoli heintiau i gadarnhau bod staff wedi cael eu gwirio yn gwisgo cyfarpar diogelu personol a bod pob arwyneb yn cael ei lanhau ddwywaith y dydd. Dywedwyd wrthym hefyd bod apwyntiadau'n cael eu trefnu i leihau nifer yr ymwelwyr a dywedwyd wrth y cleifion i aros yn eu car neu yn y brif ystafell aros, nes eu bod yn cael eu galw i mewn i'r adran.

Dywedodd pob un o'r 27 o gleifion fod y clinig yn 'lân iawn' a bod y mesurau rheoli heintiau COVID-19 yn cael eu dilyn, lle bo'n briodol.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion tri aelod o staff a nodi eu bod i gyd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol hyd at y lefel ofynnol.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Dywedodd y staff a'r uwch aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau hyd at lefel dau. Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a oedd ar waith a'r camau yr oedd angen eu cymryd pe bai pryder ynghylch diogelu.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion tri aelod o staff a nodi eu bod i gyd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at y lefel ofynnol.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwiliad clinigol

Nid oedd rhaglen archwilio glinigol benodol ar gyfer meddygaeth niwclear. Er y darparwyd tystiolaeth bod rhai archwiliadau'n cael eu cynnal, nid oedd y rhain yn rhai ffurfiol. Dywedwyd wrthym fod rhaglen archwilio glinigol gan yr Ymddiriedolaeth sy'n canolbwyntio ar leoliad penodol tiwmorau ac archwiliadau Canser Cenedlaethol. Addaswyd hyn i ganolbwyntio ar archwiliadau lleol a

chenedlaethol penodol COVID-19 yn 2020 a 2021. Mae angen i'r adran meddygaeth niwclear ddatblygu cynllun archwilio clinigol ffurfiol a adlewyrchir yn rhaglen archwilio glinigol yr Ymddiriedolaeth.

Cyngor arbenigol

Roedd y ffurflen hunanasesu yn dangos bod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a'r Cyngorwyr Amddiffyn rhag Ymbelydredd yn chwarae rhan lawn yn yr adran. Roedd yr ymglymiad hwn yn cynnwys datblygu gweithdrefnau ar gyfer gweithgareddau diagnostig, gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â delweddu a therapiau yn ogystal â chynghor ar amddiffyn rhag ymbelydredd yn ymwneud â chleifion, gofalwyr, cysurwyr ac aelodau o'r teulu. Roedd yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol hefyd yn adrodd i'r pwyllgor amddiffyn rhag ymbelydredd (yn cynnwys cysylltiad meddygol). Byddai'r adroddiad yn cynnwys gwaith optimeiddio yn yr adran yn y dyfodol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod pwy oedd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yr adran a sut i gael gafael arno mewn modd amserol.

Dywedwyd wrthym am y contract anrhydeddus a'r cytundebau lefel gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd ar waith ar gyfer cymorth gwyddonwyr clinigol. Nid oedd yr adran wedi adolygu'r cytundeb lefel gwasanaeth ers peth amser ac nid oedd cymorth o dan y cytundeb lefel gwasanaeth wedi'i ddiffinio. Dywedwyd wrthym fod yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi rhybudd i ddod â'r cytundebau lefel gwasanaeth i ben ac i sicrhau bod staff yn cael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

Dywedwyd wrthym fod nifer y prif wyddonwyr clinigol wedi gostwng cyfwerth â 1.7 swydd amser llawn. Dywedwyd wrthym fod nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal rhwng Prif Swyddog Gweithredu'r Ymddiriedolaeth, clinigwyr arweiniol a Phennaeth Ffiseg Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i sicrhau bod ymgeiswyr da yn cael eu cyfweld i lenwi'r swyddi gwag.

Yn ogystal, roedd y drafodaeth hefyd yn cynnwys cyflenwi cymorth yn y maes hwn yn y tymor byr. Roedd hyn yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r adran yn gweithredu ar lefelau cymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol sydd islaw'r canllawiau cenedlaethol. Er bod trefniadau ar waith i recriwtio yn y cyfamser, dylai'r adran gwblhau dadansoddiad bwlch nes bod rhywun yn cael ei recriwtio ac mae angen meddwl am lefel y cymorth yn y dyfodol ar gyfer therapiau newydd ac ar draws y rhanbarth. Dywedwyd wrthym y bu cytundeb yn gorfforaethol i beidio ag ymestyn gwasanaethau nes bod adnoddau Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi'u sicrhau.

Ymchwil feddygol

Gwnaeth yr adran gymryd rhan mewn ymchwil yn ymwneud â dod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Roedd atodiad a gweithdrefn cyflogwr ar gyfer hyn. Disgrifiwyd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer treialon

ymchwil yn ymwneud â chysylltiadau ag ymbelydredd ïoneiddio yn dda yn y cylch gorchwyl a ddarparwyd.

Cadw cofnodion

Gwnaethom wirio sampl o bum dogfen atgyfeirio cleifion cyfredol a phedair dogfen atgyfeirio cleifion ôl-weithredol. Defnyddiwyd ystod o ffurflenni papur o wahanol liwiau, ac mae'n bosibl y gellid ad-drefnu'r rhain.

Ar gyfer y ffurflenni presennol, roedd proses wedi'i nodi ar gyfer yr atgyfeiriadau lle'r oedd cyfiawnhad ac awdurdodiad electronig yn cael ei geisio a'i gofnodi. Dylid ystyried cadernid y broses hon a'i chymharu ag adrannau lleol eraill. Roedd hyn oherwydd y byddai copïau wedi'u sganio o'r atgyfeiriad yn cael eu hanfon at yr ymarferydd ac roedd testun yr e-bost yn cynnwys dau ddynodwr (enw a rhif adnabod) yn lle'r tri sy'n ofynnol gan weithdrefn lafar. Er na welwyd unrhyw gofnod o awdurdodiad ar un atgyfeiriad (allan o bump), gallai'r atgyfeiriad hwn fod wedi'i awdurdodi o dan y canllawiau awdurdodiad dirprwyedig. Ni lofnododd y gweithredwr awdurdodi y ffurflen atgyfeirio.

Ar gyfer yr atgyfeiriadau ôl-weithredol, gwnaethom nodi ffurflen gydsynio gofalwr a chysurwyr wedi'i lofnodi ar gyfer claf 17 oed. Gwelwyd tystiolaeth ar y ffurflen o gofnodi dosau ar gyfer y gofalwr a'r cysurwr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd bod strwythur rheoli a chanddo linellau atebolrwydd ac adrodd clir. Er i ni ganfod bod trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi gweithrediad effeithiol yr adran, bu rhai newidiadau staffio yn ddiweddar.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn weladwy iawn ac yn hawdd mynd atynt pe bai ganddynt unrhyw broblemau neu ymholiadau yr hoffent eu trafod.

Roedd y nifer cyfyngedig o staff a gwblhaodd yr holiadur yn gadarnhaol ar y cyfan yn eu hatebion am y sefydliad. Roeddent hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y datganiadau am eu rheolwr uniongyrchol a'u huwch-reolwyr.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Hawlogaeth

Roedd y ffurflenni hunanasesu'n egluro sut roedd y cyflogwr wedi dirprwyo'r dasg o gyflawni dyletswyddau RhYI(CM) i eraill. Roedd hyn yn cynnwys nodyn bod angen diwygio Atodiad 6 ar gyfer hawl Atgyfeirwyr Meddygol ac Ymarferwyr Meddygol gan fod y ddogfen yn rhestru'r Cyfarwyddwr Clinigol pan ddylai fod yn Gyfarwyddwr Meddygol.

Roedd dwy weithdrefn berthnasol ar gyfer y maes hwn, sef y ddogfen RhYI(CM) Meddygaeth Niwclear; Atodiad 2 - Atgyfeiriwr, Ymarferwyr a Gweithredwyr a gweithdrefn y cyflogwr ar ddeiliaid dyletswydd a hawliau. Roedd gweithdrefn y cyflogwr yn cynnwys y siart llif hawl o'r polisi ymbelydredd ïoneiddio. Roedd rhywfaint o ddyblygu yn y weithdrefn hon a rhai anghysondebau. Nid oedd unrhyw ddyddiadau wedi'u rhestru ym matricesau'r gweithredwr, a oedd yn golygu na ellid nodi dyddiadau ar gyfer y gwaith o adolygu a diweddarau. Roedd hyn hefyd yn golygu bod yn rhaid newid yr atodiad yn aml gyda newidiadau mewn staff meddygol. Dywedwyd wrthym y byddai newidiadau yn y dyfodol yn cael eu rheoli drwy'r grŵp llywio gweithredol. Cedwir cofnodion hyfforddiant ar gyfer aelodau unigol o'r staff.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn cael gwybod am eu dyletswyddau a'u hawliau trwy ddogfennau RhYI(CM) a llythyrau hawl. Dywedwyd wrth y staff am newidiadau i weithdrefnau ysgrifenedig ar lafar a thrwy e-bost.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Gwnaethom adolygu gweithdrefnau'r cyflogwr a ddarparwyd gennym fel tystiolaeth i gefnogi'r ffurflenni hunanasesu a chanfuwyd bod rheolaeth dogfennau yn anghyson. Gellid gwneud rhai gwelliannau yng nghysondeb rheolaeth y dogfennau. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd gweithdrefn y cyflogwr rhan d, yn nodi amserlen adolygu'r ddogfen - roedd y dyddiadau adolygu'n cael eu hychwanegu at weithdrefnau wrth iddynt gael eu hadolygu
- Nid oes unrhyw fanylion ynghylch pwy oedd yn gysylltiedig â sefydlu neu adolygu gweithdrefnau na sut y cytunwyd arnynt gan y cyflogwr
- Fformatau gwahanol o ddogfennau ar gyfer yr holl brotocolau a rhoddwyd
- Rhoi radiofferylliaeth i glaf fersiwn dau. Nid oedd yn ymddangos bod y ddogfen hon yn rhan o'r system sicrhau ansawdd (er enghraifft, dim troed-nodyn yn nodi'r awdur / dyddiad adolygu).

Dywedwyd wrthym hefyd am y trefniadau sydd ar waith i gryfhau'r strwythur atebolrwydd ac i sicrhau bod y cyflogwr (y Prif Weithredwr) yn cael gwybod am gydymffurfedd a sicrwydd amddiffyn rhag ymbelydredd a'i fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau. Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu grŵp gweithredol a grŵp strategol i drafod materion amddiffyn rhag ymbelydredd ar draws yr Ymddiriedolaeth yn ogystal ag adolygu'r polisi ymbelydredd ìoneiddiad. Roedd y grwpiau hyn yn adrodd i'r pwyllgor amddiffyn rhag ymbelydredd ac i fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y pen draw drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd

Roedd y ffurflenni hunanasesu'n disgrifio sut y byddai'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r unigolyn (neu ei gynrychiolydd) yn cael eu hysbysu (neu beidio) am achosion anfwriadol neu ddamweiniol sy'n arwyddocaol yn glinigol o gysylltiad ag ymbelydredd, a darparu canlyniad yr ymchwiliad i'r digwyddiad iddynt. Dylid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr i gyd-fynd â'r gofyniad rheoliadol, os bydd achos anfwriadol neu ddamweiniol o gysylltiad ag ymbelydredd yn digwydd, y dylent bob amser hysbysu'r claf (neu ei gynrychiolydd).

Yn ogystal, nid oedd dogfen ar waith ar gyfer astudio'r risg o achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd ar gyfer therapiau meddygaeth niwcLEAR. Dylai'r astudiaeth o risg fod ar wahân i'r asesiadau risg ymbelydredd sy'n ofynnol o dan Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio 2017.

Un aelod o staff, yn unig, yn yr arolwg a ddywedodd ei fod wedi gweld achos damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd yn ystod y mis diwethaf a dywedodd ei fod wedi adrodd amdano. Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i godi pryder am arferion clinigol anniogel ac yn teimlo'n

ddiogel wrth godi'r pryderon hyn. Byddent hefyd yn hyderus y byddai'r sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Y Gweithlu

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod nifer y staff a'r cymysgedd sgiliau yn briodol a bod apwyntiadau'n cael eu trefnu ar sail nifer y staff ar ddyletswydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gymorth gweinyddol ac roedd technegwyr yn trefnu'r apwyntiadau, yn gofalu am y dderbynfa ac yn gweithredu delweddu'r cleifion.

Dywedodd yr uwch aelodau o staff fod angen cyflogi un technegydd arall, neu fel arall roedd y lefel yn iawn ar hyn o bryd oherwydd bod apwyntiadau'n cael eu trefnu ar sail pwy oedd yn gweithio, ac roedd staff ar gael i gyflenwi yn ystod salwch neu absenoldeb.

Dywedodd yr uwch aelodau o staff hefyd eu bod yn ceisio annog grŵp nesaf o raddedigion Prifysgol Abertawe i ddod yn aelodau newydd o staff yr adran. Roedd yr adran hefyd yn edrych i gael lleoliadau myfyrwyr o'r brifysgol.

Cytunodd yr holl staff fod eu hyfforddiant, dysgu a datblygiad wedi bod o gymorth yn eu rôl.

Gwnaethom wirio'r cofnodion a gadwyd a nodi bod yr holl arfarniadau'n gyfredol. Roedd cydymffurfedd hyfforddiant bron i 95 y cant. Roedd system electronig ar waith i fonitro cydymffurfedd hyfforddiant ac arfarniad.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn ymwybodol o'r cymorth llesiant a gynigir gan yr adran a'r Ymddiriedolaeth.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B -Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Adran Meddygaeth Niwclear, Canolfan Ganser Felindre,

Dyddiadau'r arolygiad: 14 a 15 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Meddygaeth Niwclear, Canolfan Ganser Felindre

Dyddiadau'r arolygiad: 14 a 15 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i hyrwyddo argaeledd staff sy'n siaradwyr Cymraeg neu gymorth Cymraeg yn yr adran i helpu i gyflawni'r 'Cynnig Rhagweithiol'.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Sicrhau bod y gwasanaeth Meddygaeth Niwclear yn gosod posteri mewn mannau allweddol yn yr adran yn hyrwyddo'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Byddant yn rhoi gwybod i'r cleifion y dylent ofyn i aelod o staff os ydynt am siarad Cymraeg.	Rheolwr Cymraeg yr Ymddiriedolaeth / Pennaeth Meddygaeth Niwclear	30 Medi 2022
		Caiff rhestr o staff Canolfan Ganser Felindre sy'n medru'r Gymraeg a'u manylion cyswllt gwaith ei chadw yn yr adran er mwyn cysylltu â nhw os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn yr adran i ddiwallu anghenion	Rheolwr Cymraeg yr Ymddiriedolaeth / Pennaeth Meddygaeth Niwclear	30 Tachwedd 2022

		Cymraeg cleifion yn ystod cyfnod eu triniaeth.		
		Bod y bathodyn â'r logo gofynnol ar wisg pob siaradwr Cymraeg.	Rheolwr Cymraeg yr Ymddiriedolaeth draws (ar yr Ymddiriedolaeth)	30 Tachwedd 2022
		Cynnal archwiliad o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar draws yr holl feysydd clinigol ar gyfer cleifion / rhoddwyr yn yr Ymddiriedolaeth a chymryd camau lleol i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y 'Cynnig Rhagweithiol'	Rheolwr Cymraeg yr Ymddiriedolaeth	31 Mawrth 2023
Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod canlyniadau unrhyw adborth neu holiaduron boddhad yn cael eu rhannu â chleifion.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Gosod gorsaf adborth profiad cleifion CIVICA sefydlog yn yr adran Meddygaeth Niwclear.	Pennaeth Meddygaeth Niwclear / Pennaeth Safonau Proffesiynol a Digidol Nyrsio	30 Tachwedd 2022

		Gosod Meddygaeth Niwclear yn llawn ar y system adborth cleifion, CIVICA - cod QR a dolenni gwe i fod ar gael a'u darparu i gleifion wrth iddynt adael yr adran (yn amodol ar pryd bydd yr orsaf sefydlog yn cael ei gosod).	Pennaeth Meddygaeth Niwclear / Pennaeth Safonau Proffesiynol a Digidol Nyrsio	30 Medi 2022
		Sicrhau bod yr adran yn gweithredu bwrdd adborth 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr adran fel bod adborth cleifion a'r camau dilynol a weithredwyd gan yr adran i'w weld - bydd yn cael ei ddiweddarau'n fisol.	Pennaeth Meddygaeth Niwclear	30 Medi 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod atodiadau gwahanol yn cael eu diweddarau fel a ganlyn: Atodiad 1 - Gweithdrefn Adnabod Cleifion (o'r ddogfen RhYI(CM) Meddygaeth Niwclear) i nodi'r cwestiynau i'w gofyn i'r claf er mwyn sicrhau bod y claf cywir yn cael ei adnabod	RhYI(CM) Rheoliad 6, Atodlen 2 1 (a)	Diweddarau'r weithdrefn adnabod cleifion yn y ddogfen RhYI(CM) Meddygaeth Niwclear i nodi'r union gwestiynau i ofyn i gleifion, i sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod yn briodol gan ddefnyddio tri dangosydd sy'n	Pennaeth Meddygaeth Niwclear	30 Tachwedd 2022

Mae Atodiad 6 ar gyfer hawl Atgyfeirwyr Meddygol ac Ymarferwyr Meddygol yn cael ei ddiwygio i ddarllen y Cyfarwyddwr Meddygol	RhYI(CM) Rheoliad 6, Atodlen 2 1 (b) a RhYI(CM) Rheoliad 10 (3)	benodol i gleifion, sef enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad. Adolygu'r strwythur hawlogaeth fel rhan o'r adolygiad a drefnwyd o bolisi Ymbelydredd Ioneiddio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Unwaith y bydd y polisi wedi'i gymeradwyo, bydd yn pennu'r gadwyn hawlogaeth ar gyfer Atgyfeirwyr ac Ymarferwyr Meddygol. Bydd y gadwyn hon yn cael ei hymgorffori yn y gweithdrefnau RhYI(CM) Meddygaeth Niwclear a'i diweddarau'n unol â hynny gan gyfeirio at y Cyfarwyddwr Meddygol / Clinigol fel y bo'n briodol.	Pennaeth Niwclear Meddygaeth	30 Tachwedd 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn cyflogwr wedi'i hysgrifennu ar gyfer delweddu anfeddygol.	RhYI(CM) Rheoliad 6, Atodlen 2 1 (m)	Llunio gweithdrefn ar gyfer delweddu anfeddygol a'i chynnwys yn nogfennau RhYI(CM) Meddygaeth Niwclear. Bydd y weithdrefn yn nodi na chynhelir unrhyw ddelweddu anfeddygol yn yr Adran Meddygaeth Niwclear.	Pennaeth Niwclear Meddygaeth	30 Tachwedd 2022

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y matrices hawliau'n cael ei ddiweddarau i gynnwys dyddiadau, yn hytrach na thiciadau, fel bod y rheolwyr yn ymwybodol o pryd y mae angen adolygu'r dogfennau. Hefyd, rhaid i'r dogfennau fod mewn fformat sy'n gyson ac yn rhan o'r system ansawdd dogfennau.	RhYŷ(CM) Rheoliad 6, Atodlen 2 1 (b)	Adolygu'r matrices hawliau i gynnwys dyddiad y caniatwyd yr hawl a hefyd y cyfnod penodedig o adolygu hawliau unigol.	Pennaeth Meddygaeth NiwcLEAR	30 Tachwedd 2022
		Trosglwyddo'r ddogfen hon a dogfennau eraill i system rheoli dogfennau electronig i sicrhau bod system rheoli ac adolygu dogfennau gadarn ar waith ar gyfer yr holl ddogfennau. Bydd hyn yn cynnwys naill ai prynu trwyddedau ychwanegol ar gyfer system rheoli dogfennau bresennol mewn gwasanaethau ymbelydredd neu brynu system newydd.	Cyfarwyddwr Gweithrediadau / Pennaeth Meddygaeth NiwcLEAR	28 Chwefror 2023

Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gynnal asesiad risg o leoliad yr adran o ystyried y risgiau pe bai gollyngiadau'n digwydd y tu allan i'r adran ar brif dramwyfa'r ysbyty.	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae adolygiad o'r asesiad risg ymbelydredd presennol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 2017 ar waith ar hyn o bryd. Mae hyn i'w gwblhau ac i gynnwys risgiau a mesurau lliniaru o ran gollyngiadau y tu allan i'r adran.	Pennaeth Meddygaeth Niwclear / Ymgynghorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	30 Tachwedd 2022
		Cynnal adolygiad o'r cynlluniau ar gyfer y ganolfan ganser newydd i sicrhau nad yw'r Adran Meddygaeth Niwclear o fewn tramwyfa a'i bod yn cael ei gwahanu oddi wrth ymwelwyr diangen.	Pennaeth Meddygaeth Niwclear / Cyfarwyddwr Trawsnewid Gwasanaethau Canser	30 Tachwedd 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod rhaglen benodol ar waith ar gyfer archwiliad clinigol.	RhYŷ(CM) Rheoliad 7	Cyflwyno rhaglen Archwiliad Clinigol Penodol Meddygaeth Niwclear a'i hintegreiddio i raglenni archwilio ac adborth clinigol presennol yr Ymddiriedolaeth.	Cyfarwyddwr Clinigol Radioleg / Pennaeth Meddygaeth Niwclear	30 Tachwedd 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl gytundebau lefel gwasanaeth sydd wedi'u dogfennu yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac	Safon 7.1 Y Gweithlu	Nid yw'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chaerdydd a'r Fro ar gyfer darparu cymorth	Pennaeth Gwasanaethau Ymbelydredd	Wedi'i gwblhau.

yn diffinio'r cymorth sydd i'w roi fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth.		Ffiseg yn weithredol mwyach, ers 14 Gorffennaf 2022.		
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y system a ddefnyddir ar gyfer atgyfeiriadau a wneir trwy ddulliau electronig megis negeseuon e-bost, yn defnyddio'r un rheolaethau ag atgyfeiriadau papur.	RhYŷ(CM) Rheoliad 10 (5)	Sicrhau bod pob cadarnhad electronig o gyfiawnhad ac awdurdodiad bellach yn cynnwys yr un tri dynodwr sy'n benodol i'r claf ag a fyddai'n cael eu defnyddio i gadarnhau hunaniaeth ar lafar.	Pennaeth Meddygaeth NiwcLEAR	Wedi'i gwblhau.
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod system gyson o reoli dogfennau yn cael ei chyflwyno i weithdrefnau'r cyflogwr. Rhaid i hyn gynnwys amserlen adolygu dogfen, dyddiadau adolygu, pwy sy'n ymwneud â sefydlu neu adolygu gweithdrefnau a sut y cytunir arnynt gan y cyflogwr	RhYŷ(CM) Rheoliad 6 (5) (b)	Trosglwyddo dogfennau i system rheoli dogfennau electronig er mwyn sicrhau bod system rheoli ac adolygu dogfennau cadarn ar waith ar gyfer yr holl ddogfennau. Bydd hyn yn cynnwys naill ai prynu trwyddedau ychwanegol ar gyfer system rheoli dogfennau presennol mewn gwasanaethau ymbelydredd neu brynu system newydd.	Cyfarwyddwr Gweithrediadau / Pennaeth Meddygaeth NiwcLEAR	28 Chwefror 2023

		Sicrhau bod dogfennau newydd a diwygiedig yn destun goruchwyliaeth llywodraethu gan y Grŵp Gweithredol Diogelu rhag Ymbelydredd ac achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.	Cyfarwyddwr Gweithrediadau / Pennaeth Meddygaeth Niwclear	Ar unwaith
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymdrin ag achosion anfwriadol neu ddamweiniol sy'n arwyddocaol yn glinigol o gysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei diweddaru i gyd-fynd â'r gofyniad rheoliadol, ac os bydd hyn yn digwydd, y dylent bob amser hysbysu'r claf (neu ei gynrychiolydd).	RhYŷ(CM) Rheoliad 8 (1)	Diweddaru'r wybodaeth yn ymwneud ag achosion anfwriadol neu ddamweiniol o gysylltiad ag ymbelydredd yn y ddogfen RhYŷ(CM) Meddygaeth Niwclear i gyd-fynd â'r gofynion rheoliadol.	Pennaeth Meddygaeth Niwclear	30 Medi 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod dogfen wedi'i hysgrifennu ar yr astudiaeth o'r risg o achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd ar gyfer therapïau meddygaeth niwclear.	RhYŷ(CM) Rheoliad 8 (2)	Llunio dogfen yn ymdrin ag astudiaeth o'r risg o achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd ar gyfer therapïau meddygaeth niwclear a'i hymgorffori yn y system rheoli dogfennau.	Pennaeth Meddygaeth Niwclear	30 Tachwedd 2022

Rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod staff priodol yn cael eu cyflogi i gyflawni swyddogaethau sy'n briodol i'w rôl. Mae hyn yn cynnwys cymorth gweinyddol i gyflawni swyddogaethau gweinyddol.	Safon 7.1 Y Gweithlu	Recriwtiwyd un cynorthwydd gweinyddol ac mae'n dilyn hyfforddiant mewn Meddygaeth Niwclear ar hyn o bryd er mwyn iddo allu darparu cymorth ysgrifenyddol i'r gwasanaeth.	Pennaeth Gwasanaethau Ymbelydredd	Wedi'i gwblhau.
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod digon o gymorth gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol ar gael i fodloni canllawiau cenedlaethol gofynnol. At hynny, dylai'r cyflogwr gwblhau dadansoddiad o fylchau i sefydlu nifer yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol sydd eu hangen, a'u cymwysterau, i gwmpasu'r holl therapïau sydd ar waith a'r rhai y bwriedir eu cyflwyno.	RhYŷ(CM) Rheoliad 14 (1)	Cynnal dadansoddiad o fylchau o ran darparu cymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear i'r gwasanaeth. Ni fydd unrhyw driniaethau diagnostig neu therapiwtig newydd yn cael eu rhoi ar waith hyd nes y bydd capasiti Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi gwella. Mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddor Gofal Iechyd lleol, mae'r adran wrthi'n recriwtio Gwyddonydd Clinigol ac adnodd Arbenigwr Ffiseg Feddygol newydd ac yn ffurfio gwasanaeth cyngori rhanbarthol i wella gwydnwch. Fel rhan o ddarpariaeth ranbarthol gwasanaethau Arbenigwr Ffiseg Feddygol, mae adnoddau gwyddonol ychwanegol wedi'u recriwtio gan gynnwys dau	Pennaeth Gwasanaethau Ymbelydredd	30 Tachwedd 2022

		Wyddonydd Clinigol Band 7 a Gwyddonydd Clinigol Band 8.		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Kathy Ikin

Swydd: Pennaeth Gwasanaethau Ymbelydredd

Dyddiad: 2/9/2022